**Dyddiad cyhoeddi** [Hydref 2010]

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin pledren orweithgar drwy ysgogi nerf yn agos i'r ffêr

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio triniaeth ysgogi nerf yn agos i'r ffêr yn y GIG i drin pobl â phledren orweithgar. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio syndrom pledren orweithgar na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

**Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 235**

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Dengys y dystiolaeth bod y driniaeth hon yn effeithiol o ran lleihau symptomau yn y tymor byr a'r tymor canolig ac nad oes pryderon mawr am ddiogelwch, felly gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â phledren orweithgar, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer pledren orweithgar. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Trin pledren orweithgar drwy ysgogi nerf yn agos i'r ffêr

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'Ysgogi nerf yng nghefn y tibia drwy'r croen ar gyfer syndrom pledren orweithgar'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Ymysg symptomau pledren orweithgar mae angen i basio dŵr yn aml, a heb lawer o rybudd, ac ysfa wlychu (gollwng wrin yn sydyn a dirybudd). Pledren orweithgar yw pan fydd cyhyr y bledren yn cywasgu cyn bo'r bledren yn llawn._Mewn rhai achosion, caiff ei gysylltu â chyflyrau niwrolegol megis sglerosis ymledol neu glefyd Parkinson.

Ymysg triniaethau ar hyn o bryd mae hyfforddi'r bledren, hyfforddi cyhyrau ar lawr y pelfis a meddyginiaeth. Gellir defnyddio pigiadau o docsin botwloniwm ac ysgogi nerf yng ngwaelod yr asgwrn cefn os nad yw'r triniaethau hyn yn gweithio. Gall llawdriniaeth, gan gynnwys gwneud y bledren yn fwy, fod yn opsiwn weithiau.

Yn y driniaeth ysgogi nerf yn y tibia drwy'r croen, gosodir nodwydd denau yn agos i nerf ychydig yn uwch na'r ffêr a gosodir electrod ar y droed. Caiff cerrynt trydanol gwan ei drosglwyddo drwy'r nodwydd i

ymlacio'r nerfau sy'n rheoli defnydd y bledren yng ngwaelod y cefn. Fel arfer ceir teimladau goglais yn y ffêr, y droed neu fysedd y droed. Fel arfer mae'r driniaeth yn cynnwys 12 sesiwn 30 munud yr un fel claf allanol, unwaith yr wythnos.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 220 o gleifion, nododd 60 allan o 110 o gleifion a gafodd y driniaeth a 23 allan o 110 o gleifion a gafodd driniaeth 'ffug' eu bod yn cael llai o symptomau yn y bledren pan edrychwyd arnynt ar ôl 13 o wythnosau.

Mewn astudiaeth arall, disgrifiodd 35 allan o 44 o gleifion a gafodd y driniaeth a 23 allan o 42 o gleifion a gafodd eu trin â meddyginiaeth eu bod yn well neu'n gwella ar ôl 12 wythnos o driniaeth. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn sgoriau ansawdd bywyd y ddau grŵp.

Mewn astudiaeth o 90 o gleifion a gafodd y driniaeth, gofynnodd 58 ohonynt i'r driniaeth barhau yn y tymor hwy er mwyn cynnal y canlyniadau. Nododd yr un astudiaeth fod achosion o ollwng wrin mewn cyfnod 24 awr wedi haneru neu well mewn 34 allan o 60 o gleifion.

Mewn astudiaeth o 35 o gleifion, nid oedd symptomau gan 19 yn syth ar ôl y driniaeth, ac nid oedd symptomau gan wyth ar ôl blwyddyn. Mewn astudiaeth arall lle cafodd cleifion eu trin â'r driniaeth dros 12 o sesiynau yna â thriniaethau ychwanegol am naw mis arall, roedd 30 allan o 32 o gleifion yn ystyried eu bod yn well neu wedi gwella pan edrychwyd arnynt ar ôl chwe mis, a 24 allan o 25 o gleifion pan edrychwyd arnynt ar ôl 12 mis.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr nad yw'n glir pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn yr hirdymor.

Ymysg ffactorau allweddol sy’n mesur llwyddiant mae pasio dŵr yn llai aml, llai o anymataliaeth, defnyddio llai o badiau bob dydd, gwell ansawdd bywyd a'r bledren yn gallu cynnwys mwy.

### Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth lle cafodd hanner y cleifion y driniaeth a chafodd hanner feddyginiaeth, cafodd tua 15% o gleifion ym mhob grŵp o leiaf un sgîl-effaith y credir ei bod yn gysylltiedig â'r driniaeth (wyth allan o 49 a saith allan o 49, yn y drefn honno). Yn y grŵp a gafodd y driniaeth, o fewn 12 wythnos o gael y driniaeth cafwyd un achos yr un o chwyddo cyffredinol, anymataliaeth yn gwaethygu, cur pen, gwaed yn yr wrin, methu goddef y driniaeth ysgogi, crampiau yn y coesau, poen yn y traed neu fysedd y traed, a phendro neu lewygu mewn ymateb i'r nodwydd yn cael ei gosod.

Yn yr astudiaeth lle cafodd 220 o gleifion y driniaeth, cafwyd pum achos o waedu neu anesmwythder lle gosodwyd y nodwydd, ac un achos yr un o'r ffêr yn cleisio neu oglais yn y goes.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod ychydig o waedu, poen, a haint lle caiff y nodwydd ei gosod ymysg y problemau posibl.

## Rhagor o wybodaeth am bledren orweithgar

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar bledren orweithgar, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Ysgogi nerf yng nghefn y tibia drwy'r croen ar gyfer syndrom pledren orweithgar'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG235*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8242-4

N2370 1P October 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.